HANES CELF

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch DDAU gwestiwn.

Wrth roi eich ateb dylech gyfeirio at enghreifftiau penodol o weithiau celf, gan nodi eu gwneuthurwr, ac os yn bosibl, eu teitl, a'r flwyddyn y cawsant eu creu. Defnyddiwch wahanol enghreifftiau ym mhob ateb.

1. Defnyddir y term 'Tirlun' yn aml ym maes Hanes Celf i drafod ystod eang o olygfeydd sy'n darlunio tirweddau naturiol a threfol. **Gan ddefnyddio gwaith dau artist (cyfoes neu hanesyddol) trafodwch eu dulliau o ymdrin â'r pwnc 'Tirlun'.**

2. Dewiswch ddau hunanbortread a grëwyd mewn unrhyw gyfrwng (paentio, ffotograffiaeth, darlunio, gwneud printiau, cerflunwaith, arlunio ac ati.) **Ystyriwch sut mae'r ddau artist wedi defnyddio eu cyfrwng i fynegi Hunaniaeth trwy Hunanbortread.**

3. Mae Celf Haniaethol yn aml yn cyfeirio at gelf sy'n symleiddio'r testun gan ddefnyddio siâp, ffurf, lliw a llinell, yn aml mewn ffordd fynegiannol neu ystumiol. Mae enghreifftiau o artistiaid a weithiodd gyda chelf haniaethol yn cynnwys Mark Rothko, Henri Matisse, Georgia O'Keeffe, Piet Mondrian, Vasily Kandinsky a Jackson Pollock. **Cymharwch ddau baentiad Haniaethol, gan unrhyw ddau artist o'ch dewis.**

4. **Disgrifiwch a dadansoddwch y print ffotograffig isod (ffigur 1).** Ystyriwch sut mae'r ffotograffydd wedi creu'r print hwn gan gyfeirio at y testun, y cyfansoddiad, y dechneg a'r goleuo.

5. **Disgrifiwch a dadansoddwch y print isod (ffigur 2).** Ystyriwch sut mae'r artist wedi creu'r print llythrenwasg traddodiadol hwn gan gyfeirio at y testun, y cyfansoddiad a'r dechneg.

Ffigur 1: ‘Audrey Hepburn’ gan Angus McBean. 1951, print gelatin arian, 37x 28.7 cm. Amgueddfa ac Oriel Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth.

Ffigur 2: ‘Napier Street – Demolition’ gan Rigby Graham, 1980. Print llythrenwasg lliw ar bleth-bapur bond gwyn 25.3 x 31.6cm, Amgueddfa ac Oriel Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth.